Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

## Rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau

# Nodyn Briffio

Nod y Rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BEERN) yw nodi a rhoi sylw i anghenion tystiolaeth ac ymchwil bioamrywiaeth ac ecosystemau a fydd yn cyflawni polisi Cymru ac yn cael effaith arno, ac yn cyflawni blaenoriaethau.

Nod y rhaglen yw ymgysylltu â'r gymuned ymchwil yng Nghymru a thu hwnt, cyflwyno dulliau gweithredu newydd, ac integreiddio gyda threfniadau cyfredol er mwyn sicrhau bod tystiolaeth a chyngor da'n cael eu darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y sector amgylcheddol ehangach ac eraill.

Felly, rydym yn ceisio gwneud y canlynol:

1) dod ag ymarferwyr, llunwyr polisi a phobl academaidd o bob cwr o Gymru at ei gilydd i nodi bylchau yn ein sylfaen dystiolaeth
2) darparu trefniadau a ffordd o drosi'r bylchau hyn yn brosiectau ymchwil y gellir eu cyflawni
3) blaenoriaethu ac ariannu prosiectau yn unol â'r angen (ar sail blaenoriaethau polisi a chyflenwi)

Gofynnir i brosiectau gael eu cyflwyno i ni sy'n bodloni'r blaenoriaethau polisi a/neu gyflenwi. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn y siart lif cyflwyno prosiect a'r canllawiau cysylltiedig.

Rhaid i brosiectau gael eu dyrannu i un unigolyn arweiniol.

Pan fydd y cynigion prosiect wedi'u cyflwyno, byddant ar gael ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (bydd yr holl wybodaeth bersonol neu sensitif wedi'i thynnu allan).

Gall y sawl sy'n cyflwyno'r prosiect ei wneud neu gall prosiectau fod ar gael i bobl eraill eu gwneud. Oni nodir yn wahanol, bydd prosiectau a gyflwynir ar gael i eraill ddewis eu cyflawni. Yn wir, dyma brif nod y rhaglen, a bydd yn cyflwyno cyfleoedd i gynigwyr a darparwyr gydweithio. Rhagwelir mai prifysgolion fydd y rhai mwyaf tebygol o gyflenwi'r prosiectau (ar ffurf prosiectau i israddedigion neu raddedigion). *Os hoffech drafod prosiect gyda rhywun academaidd cyn ei gyflwyno, cysylltwch â ni trwy gyfeiriad e-bost Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)*.

Gall y cynigion prosiect fod ar unrhyw ffurf neu raddfa, ond rhaid bod modd eu cyflawni ar yr adeg cyflwyno. Rhaid i'r ffurflen gyflwyno gynnwys amcangyfrif gwybodus o'r gost, yr amserlen a'r raddfa gyflenwi. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn yn y canllawiau atodol. Gall cynnwys y prosiectau eu hunain amrywio, a gallent gynnwys ymchwil maes neu ddesg, arolygon, adolygiadau llenyddol, gweithgareddau gwyddonol i ddinasyddion, gwaith dan gontract, neu waith mewnol gan sefydliad amgylcheddol (neu sefydliad arall).

Argymhellir eich bod yn cydweithio ar gynigion prosiect cyn eu cyflwyno.

## Gweithdai

Bydd cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithdai â thema a fydd yn helpu i hwyluso gwaith cydweithredol a nodi bylchau/anghenion. Y gweithdy cyntaf bydd 'Cydnerthedd ecosystemau a'i gymhwysiad ymarferol i Gymru' ym mis Mehefin 2018.

Bydd rhagor i ddilyn, a byddant yn cael eu hysbysebu ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a thu hwnt.

*Cysylltwch â ni (walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) os nad ydych yn siŵr pwy allwch gydweithio ag ef / sut y gallwch gydweithio orau neu ddatblygu syniad y tu allan i'r gweithdai hyn.*

## Cyflwyno prosiectau

Gofynnir i chi gyflwyno prosiectau y gellir eu cyflawni'n hawdd. Dylid cyflwyno prosiectau ar y templed prosiect sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth gysylltiedig ar dudalennau gwe Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, a'u hanfon i gyfeiriad e-bost Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: walesbiodiversitypartnership@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Bydd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cadarnhau ei bod wedi derbyn y cyflwyniad ac yn eich diweddaru'n gyson ar y cynnydd.

Bydd pob prosiect a gyflwynir yn cael ei flaenoriaethu, a bydd y cyllid yn cael ei ddyfarnu'n gystadleuol i'r prosiectau â'r flaenoriaeth uchaf yn gyntaf. Byddwch yn cael adborth ar ôl y blaenoriaethu.

Cyn cyflwyno, byddai'n ddefnyddiol i chi weithio trwy'r dogfennau canllaw yn gyntaf, a sicrhau bod y prosiect a gynigir yn bodloni'r gyfres gyntaf o feini prawf (sydd wedi'u hamlinellu yn y siart lif a'r ddogfen ganllaw gysylltiedig).

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Os bydd y prosiect a gyflwynir gennych yn cael ei dderbyn, bydd yn mynd trwy'r broses flaenoriaethu safonol, a byddwch yn cael eich hysbysu o'r canlyniad.

Bydd prosiectau'n cael eu graddio yn ôl blaenoriaeth uchel–canolig–isel.

Bydd y cyllid yn cael ei ddyfarnu'n gystadleuol, a bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rhai hynny sydd wedi cael blaenoriaeth uchel a lle mae darparwr wedi'i benodi (naill ai cyn neu ar ôl cyflwyno'r prosiect).

## Cyllid

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r cyllid

Fersiwn 1. 31.05.2018